**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau , Dydd Iau, 5 Tachwedd 2020**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Fe dderbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Melvyn Mile a gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau a oedd wedi ei galw i gyfarfod arall. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a’r Parth Cyhoeddus yn dirprwyo ar ei rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Dim. |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.<br><br>Codwyd cwestiwn mewn perthynas â chydbwysedd gwleidyddol y Pwyllgor, yn benodol mewn perthynas â nifer cynrychiolwyr Grŵp y Ceidwadwyr ar y Pwyllgor. Eglurwyd fod swyddogion yn aros i'r Grŵp Annibynnol i enwebu cynrychiolydd i wasanaethu fel eu trydydd aelod ar y Pwyllgor. Ar ôl derbyn yr enwebiad hwnnw byddai’r Grŵp Ceidwadol yn cael cais i dynnu un o'i gynrychiolwyr o'r Pwyllgor. |
| **4** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | Dywedodd y Cynghorydd Gareth Lloyd-Davies ei fod wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod a gofynnodd am i hyn gael ei gofnodi yn y cofnodion a’i adlewyrchu yn ei gofnod presenoldeb.<br><br>Cytunwyd ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Cynigiwyd ac eiliwyd cywirdeb y cofnodion, yn amodol ar y gwelliant uchod. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Nododd holl aelodau’r Pwyllgor eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni nododd unrhyw un eu bod yn dymuno ymatal. Felly:<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u> - yn amodol ar gynnwys yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 10 Medi 2020 fel cofnod cywir.*** |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau , Dydd Iau, 5 Tachwedd 2020**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | |
| **5** | CYNNIG TWF GOGLEDD CYMRU CAM 2 – CYTUNDEB LLYWODRAETHU | Cytunwyd ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Nododd holl aelodau'r Pwyllgor eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni nododd unrhyw un eu bod yn dymuno ymatal.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>***yn amodol ar y sylwadau uchod -***<br>***(i) ar ôl ystyried y wybodaeth a ddarparwyd yn ystod y drafodaeth a'r dogfennau yn ymwneud â'r Cynnig Twf Terfynol a atodir fel Atodiad 1 i'r adroddiad, i gefnogi ac argymell y cynigion a gaiff eu cynnwys o fewn y dogfennau i'w cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor i'w cymeradwyo yn ffurfiol; a***<br>***(ii) chadarnhau ei fod fel rhan o'i ystyriaethau wedi darllen, deall ac ystyried cynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar Les Cyngor Sir Ddinbych sydd wedi ei atodi fel Atodiad 2 i'r adroddiad.*** |
| **6** | DIGARTREFEDD - EFFEITHIAU COVID 19 a CHYNLLUNIAU ADFERIAD, STRATEGAETH DDIGARTREFEDD A CHYFRIFIAD Y RHAI SY'N CYSGU AR Y STRYD | Cytunwyd ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Nododd holl aelodau'r Pwyllgor eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni nododd unrhyw un eu bod yn dymuno ymatal. Bu i'r Aelodau ***benderfynu:***<br><br>***- yn amodol ar y sylwadau uchod i gadarnhau eu bod wedi eu sicrhau fod Tîm Atal Digartrefedd Sir Ddinbych yn gweithio i gynllun tri cham Llywodraeth Cymru 'Canllawiau Cynllunio ar gyfer Digartrefedd a Gwasanaethau Cefnogi yn Ymwneud â Thai' i fynd i'r afael â materion digartrefedd yn y sir ac yn ei ymateb i bwysau a achoswyd gan*** |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | ***bandemig COVID-19.*** |
| **7** | ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION YN SIR DDINBYCH EBRILL 2019 – MAWRTH 2020 | Cytunwyd ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Nododd holl aelodau'r Pwyllgor eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni nododd unrhyw un eu bod yn dymuno ymatal. <u>Penderfynodd</u> y Pwyllgor:<br><br>***- yn amodol ar y sylwadau uchod:***<br>***(i) gydnabod ymdrechion y Cyngor i ddiogelu oedolion diamddiffyn yn y sir; a***<br>***(ii) phwysigrwydd ymagwedd gorfforaethol at ddiogelu oedolion mewn perygl a chyfrifoldeb y Cyngor i ystyried hyn fel maes blaenoriaeth allweddol.*** |
| **8** | RHAGLEN WAITH CRAFFU | Cytunwyd ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Nododd holl aelodau'r Pwyllgor eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni nododd unrhyw un eu bod yn dymuno ymatal. Felly:<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u> - yn amodol ar y sylwadau uchod ac ar wneud ymholiadau gyda swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar eu hargaeledd i fynychu cyfarfod i drafod yr eitemau a restrir o dan yr adran 'Materion y Dyfodol', i gymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor.*** |
| **9** | ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR | Cytunwyd ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Nododd holl aelodau'r Pwyllgor eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni nododd unrhyw un eu bod yn dymuno ymatal. Felly: |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | ***<u>Penderfynwyd:</u>* - derbyn a nodi'r wybodaeth a dderbyniwyd, a bod y materion yn ymwneud â'r cynnydd hyd yma gyda chyflawni prosiect Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych yn cael ei godi gyda chynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd y tro nesaf y byddant yn mynychu cyfarfod y Pwyllgor.** |